Y Bil Awtistiaeth (Cymru)

Ymateb i'r ymgynghoriad 12/09/2018

LUDLOW STREET HEALTHCARE

Y Tîm Adolygu

- Mae Ludlow Street Healthcare yn darparugwasanaethau i boblâ chyflyrau Asperger cymhleth achyflyraucymhleth ar y Sbectrwm Awtistig yng Nghymru, yn benodol:
  - Coleg Beechwood yn Sili; cyfleuster addysgol sy'ncynnig gwasanaethau preswyl a gwasanaethau diwrnod i oedolion ifanc rhwng 16 a 25 oed
  - Ocean Community Services; sy'n darparu gofal pontio a thymor hir mewn unedau preswylbach yn ygymuned
- Mae ein timau amlddisgyblaethclinigol ac addysgol wedi adolygu'r Bil drafft, ac mae'r canlynol yn grynodeb o'u sylwadau

[redacted]

Adran 2

- Sut bydd y Bil Awtistiaeth (Cymru) yn cysylltu â'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol, a sut byddant yn gweithio gyda'i gilydd i wella'r ddarpariaeth i oedolion ac i blant yng Nghymru? O ranasesu a chefnogi, sut bydd y darpariaethau hyn yn cysylltu â'r Cynlluniau Datblygu Unigol?
- Wrth fapio gwasanaethau, sut bydd darparwyr annibynnol yn cael eu hintegreiddio i'r rhwydwaith gwasanaethau? Pa ystyriaeth fydd yn cael ei chynnwys yn y broses dethol gwasanaethauar gyfer dewis rhieni?
- Beth yw hawliau'r person ifanc a/neu deuluoedd o ran prosesau apelio os ydynt yn anghytunoâ'r diagnosis, a chydnabyddiaeth o unrhyw asesiadau annibynnol sy'n cael eu cynnal?
- Sut bydd y Bil yn sicrhau bodyr holl wasanaethausy'n ymwneud â diagnosis yn cyd-fynd â'i gilydd? Pwy fydd yn gallu cyfrannu at y broses gwneud diagnosis (ee teuluoedd, lleoliadau gofal preswyl, darparwyr addysg ayb),ac a fyddpob partisy'n gysylltiedig â'r defnyddiwr gwasanaethau yn gallucyfrannu?Sut bydd y Bil yn sicrhau bod pawb sy'n defnyddio gwasanaethau cefnogi yn cael y ddarpariaeth briodol ar y lefel briodol?

Adran 2

- Mae'n hollbwysig sicrhau bod gwasanaethau'n parhau wrth i unigolion dyfu o fod yn blant i fod yn oedolion. Rhaid i'r Bil sicrhau bod y newidiadau i gyllid addysgac AnghenionDysgu Ychwanegol, gyda'r cyfrifoldeb dros gyllid yn symud olywodraeth ganolog iawdurdodau lleol, yn cael ystyriaeth lawn a bod protocolau rheoli priodol yn cael eu cynnwys.A fydd y Bil yn caniatáu darparu gwasanaethau y tu hwnt i'r cynnig a'r ardal leol?
- Darpariaeth addysg – a yw hynyn cynnwys darparwyr annibynnol ac addysg ôl-orfodol?
- Sut gall darparwyr addysg ddisgwyl caelcefnogaeth gan y cyrff sy'n cael eu hamlinellu yn 2.1g – ee adnoddau a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg?
- Parhad gwasanaethauwrth dyfuo blant ioedolion – hollbwysig bod hynyn eglur yn enwedig oran y newidiadau i gyllid addysg ac Anghenion Dysgu Ychwanegol, gyda'r cyfrifoldeb yn symud o lywodraeth ganolog i awdurdodau lleol. A fyddant yn edrych y tu hwnt i'r cynnig a'r ardal leol?
- O ran hyfforddiant i weithwyrproffesiynol, pa broses fydd yno ar gyfer darparwyr annibynnol i sicrhau eu bod yn cael digon o hyfforddiant?

Adran 6

- O ran casglu data –sut bydd darparwyr annibynnolyn gorfodcyflwyno data a pha reolau data fydd ynrhaid iddynt eu dilyn?
- A fydd y gofynion data ddim ond yn cynnwys pobl oGymru sy'n defnyddio gwasanaethau yng Nghymru, neua fyddantyn cynnwys pobl o Loegr sy'n defnyddiogwasanaethau yng Nghymru a phobl o Gymru sy'n defnyddio gwasanaethau yn Lloegr?

Sylwadau Cyffredinol

- Mae egwyddorion cyffredinol yBil yn dda, ond mae'n bwysig fod y Bil yn cynnwys yr ystod lawn o wasanaethau sydd ar gael, fel darparwyr annibynnol, er mwyn sicrhau dull cynhwysfawr ar gyfer darparu gwasanaethau Awtistiaeth.
- Rhaid i'rBil hefydwneud yn siŵr bod hawliau defnyddwyr gwasanaethaua'u rhieni/teuluoedd i gyfrannu at y broseso ddewis eu gwasanaethau yn cael eu cydnabod a'u diogelu.
- Rhaid ystyried yn llawn sut bydd y Bil Awtistiaeth yn cysylltu â'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r targedau/darpariaethau sy'n cael eu hamlinellu ibobl ifanc drwy ddarparu Cynlluniau Datblygu Unigol.
- Un o fethiannau'r ddarpariaeth gwasanaethau bresennol yw diffyg integreiddio rhwng comisiynwyr gwasanaethau a darparwyr gwasanaethau; byddai cynnwys argymhellion ar gyfer gwella'r cyfathrebu rhwng asiantaethau yn cryfhau'r broses o ganfod yr atebionmwyaf llwyddiannus i ddefnyddwyr gwasanaethau.